# 01. Cynllun Creu Lleoedd Dinbych

## BARN ALLWEDDOL

- A ydych chi'n cytuno â'r ymyriadau?
- A oes unrhyw effeithiau negyddol posibl yr ydych yn poeni amdanynt?
- A oes yna ardaloedd yn y dref sydd angen mwy o ffocws?
- Pa fuddion ydych chi'n rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn eu cynnig i'r gymuned?
- Pa newidiadau neu brosiectau penodol yr hoffech chi eu gweld yn cael eu gweithredu?
- Sut ydych chi'n meddwl y bydd yr ymyriadau arfaethedig hyn yn effeithio ar eich bywyd bob dydd?
- A oes unrhyw brosiectau neu fentrau llwyddiannus o drefi eraill y credwch y gallent weithio yma?
- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwneud y prosiectau hyn yn fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar?
- A yw'r ymyriadau hyn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol i chi?
- Sut allwn ni sicrhau bod yr adfywio o fudd i holl aelodau'r gymuned, gan gynnwys grwpiau sydd ar y cyrion?

Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad lle, paratowyd cyfres o uchelgeisiau lle craidd i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y dref yn y dyfodol a fframio'r math o fuddsoddiad a phrosiectau y dylid eu harchwilio a'u dilyn. Mae'r uchelgeisiau'n ymateb i'r dadansoddiad lle ac adborth rhanddeiliaid.

Cyflwynir yr uchelgeisiau craidd isod gan bob un o Egwyddorion y Siarter Creu Lleoedd.

## LLEOLIAD FFISEGOL

### CYRCHFAN FFYNIANNUS, HANESYDDOL

... yng nghanol Sir Ddinbych, wedi'i adeiladu ar dreftadaeth a hanes cyfoethog Cymru, tirweddau naturiol eithriadol ac amrywiaeth o siopau annibynnol gan greu cynnig hamdden ac adloniadol eithriadol, yn ogystal â lle i fyw.

LLEOLIAD

### TREF FARCHNAD A THIR CYHOEDDUS BYWIOG

... wedi'u diffinio gan adeiladau rhestredig a'u nodweddu gan Stryd Fawr werdd a phrysur, gyda mannau cyhoeddus deniadol sy'n gallu cefnogi rhyngweithio cymdeithasol ac ymdeimlad cryf o gymuned.

TIR CYHOEDDUS

## GWEITHGAREDD

### TREF GYSYLLTIEDIG A HYGYRCH I BAWB

... gyda llwybrau cerdded ardderchog yn cysylltu'r Stryd Fawr â'r dwyrain a'r gorllewin, safleoedd treftadaeth allweddol a'r trefi cyfagos; gyda gwasanaethau bws rheolaidd a dibynadwy; a llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n sefydlu'r dref fel canolfan

i archwilio'r dirwedd naturiol ehangach.

SYMUD

### CYMYSGEDD CYFOETHOG O GARTREFI, SIOPAU ANNIBYNNOL A GWEITHGAREDDAU

... gydag adeiladau hanesyddol wedi'u hadnewyddu, cyfres o leoedd i fusnesau bach, a mynediad at ystod eang o wasanaethau lleol ac asedau treftadaeth unigryw.

CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU

## YSTYR

### YMDEIMLAD CRYF O GYMUNED A BALCHDER

... i gefnogi a gwasanaethu trigolion, busnesau a grwpiau lleol, yn ogystal â chreu cynnig cryfach ar gyfer y cenedlaethau iau.

POBL A'R GYMUNED

### CANOLFAN AR GYFER DIWYLLIANT, HANES A'R IAITH GYMRAEG

... sy'n dathlu treftadaeth a hanes cyfoethog Dinbych drwy ddigwyddiadau lleol a diwylliannol, pensaernïaeth a chelf, gyda phwyslais cryf ar hyrwyddo'r Gymraeg drwyddi draw.

HUNANIAETH

the urbanists
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# 02. Porth y Gorllewin a Chanol y Dref

| CYFLEOEDD | UCHELGEISIAU WEDI'U MARCIO YN ERBYN SIART CREU LLEOEDD CYMRU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU | SYMUD | LLEOLIAD | TIR CYHOEDDUS | POBL A'R GYMUNED | HUNANIAETH |
| 1. Defnyddio Maes Parcio Ward y Ffatri yn well, gan ailgynllunio rhan o'r ardal i greu gofod digwyddiadau hyblyg ar gyfer marchnadoedd a busnesau bach. Archwilio cyfleoedd o amgylch Chapel Place y gellid eu gweithredu drwy ddod â'r bwâu yn ôl i ddefnydd, wedi'u targedu at fusnesau newydd lleol gyda lle cul i ffwrdd i'r tu blaen. | | | | | | |
| 2. Adleoli arosfannau bysiau presennol ar y Stryd Fawr i Portland Place gan ddefnyddio strydoedd ehangach i greu amgylchedd mwy hygyrch, a chyflwyno croesfannau newydd i gerddwyr i wella mynediad, blaenoriaeth a diogelwch, ac archwilio lleihau goruchafiaeth seilwaith cerbydau. | | | | | | |
| 3. Archwilio'r posibilrwydd o drosi lloriau uchaf adeiladau ar hyd y Stryd Fawr nad ydynt mewn defnydd yn fflatiau; bydd yn creu mwy o weithgarwch yn y canol. Archwilio gweithrediad cynllun ysgogi unedau gwag. Buddsoddi yn adeilad hanesyddol Gwasg Gee a'i adfer i ddarparu llety preswyl newydd. | | | | | | |
| 4. Mynediad i gefn y llyfrgell (Sgwâr y Neuadd) i fod yn gerddwyr yn unig i greu amgylchedd o ansawdd uchel a mwy o le i gerddwyr i alluogi i fusnesau lleol ehangu. | | | | | | |
| 5. Creu gofod sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr o flaen Y Goron drwy ailgynllunio'r gofod i gyfyngu ar symudiad cerbydau; caniatáu i fusnesau cyfagos ehangu ar y stryd. | | | | | | |
| 6. Buddsoddi yn y llwybrau treftadaeth a'u hategu drwy arwyddbyst cryfach i gymell symud rhwng Castell Dinbych a chanol y dref. | | | | | | |
| 7. Mynegi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn celf gyhoeddus ac arwyddbyst o amgylch Canol y Dref. | | | | | | |
| 8. Gwella mynediad i Gastell Dinbych drwy welliannau i ddylunio strydoedd, gan gynnwys triniaethau i roi blaenoriaeth i gerddwyr a chreu system unffordd ar hyd Bull Lane, gan ennill lleoedd ar gyfer parcio ar y stryd a llwybrau diogel i gerddwyr. | | | | | | |
| 9. Gwella arwyddbyst ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigwyddiadau lleol drwy fwrdd gwybodaeth tref/treftadaeth dwyieithog newydd. Ymgorffori galluoedd digidol i ganiatáu hyrwyddo digwyddiadau lleol yn well. | | | | | | |
| 10. Gwella tir cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr a Sgwâr y Neuadd drwy gyflwyno gwyrddni a chlirio. Ychwanegu seddi mwy cymdeithasol, a chreu ffryntiadau siopau cyson o ansawdd uchel i greu cynnig mwy deniadol i fusnesau lleol presennol a gwella'r ymdeimlad cyffredinol o le. | | | | | | |
| 11. Buddsoddi yn Neuadd y Dref i alluogi ei rôl fel canolfan gymunedol aml-genhedlaeth yn well, ar gyfer cynnal digwyddiadau lleol ac ar gyfer cyfleusterau cymunedol wedi'u targedu at helpu defnyddwyr bregus. | | | | | | |
| 12. Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi yn y Goron i ddod â'r strwythur yn ôl i ddefnydd, gan helpu i gynnal yr adeilad hanesyddol a chyfrannu tuag at fywiogrwydd y dref. | | | | | | |





Enghraifft o'r farchnad bwyd a diod dros dro allanol.


Enghraifft o farchnad dros dro allanol mewn maes parcio.



Enghraifft o arwyddbyst ac arwyddion.


Enghraifft o arwyddion llwybr treftadaeth


Enghraifft o fusnesau newydd annibynnol o fewn y bwâu.

# 03. Castell Dinbych a Gorllewin Dinbych

| CYFLEOEDD | UCHELGEISIAU WEDI'U MARCIO YN ERBYN SIART CREU LLEOEDD CYMRU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU | SYMUD | LLEOLIAD | TIR CYHOEDDUS | POBL A'R GYMUNED | HUNANIAETH |
| 1. Ôl-ffitio Swyddfa'r Cyngor - potensial ar gyfer mannau gweithio preswyl, hyblyg neu ddefnydd sy'n gysylltiedig ag iechyd. | ■ | | | | ■ | |
| 2. Ehangu cynnig mannau gwyrdd awyr agored ochr orllewinol y dref gyda chyfleusterau hamdden newydd Parc Cae Hywel gan gynnwys trac rhedeg newydd, MUGA ac offer ffitrwydd awyr agored i arallgyfeirio'r cynnig hamdden. | ■ | ■ | ■ | | ■ | |
| 3. Gwella'r llwybr treftadaeth presennol gydag arwyddbyst ychwanegol gyda phwyslais ar gysylltiadau â'r castell o'r stryd fawr. | | | ■ | ■ | | ■ |
| 4. Gwella mynediad i'r castell gyda pharcio a mannau gollwng dynodedig gwell wedi'u gweithredu'n sensitif yn St Hilary's Terrace yn agosach at y castell ar gyfer y rhai sydd â heriau symudedd. | | ■ | | | | |
| 5. Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau / murluniau celf cyhoeddus ychwanegol ar hyd Broomhill Lane tuag at y castell. | | | | ■ | ■ | ■ |
| 6. Creu lle dynodedig ar gyfer biniau ar hyd Broomhill Lane i ddelio â'r broblem gwastraff ar hyd y llwybr cyswllt pwysig hwn rhwng canol y dref a Chastell Dinbych. | | | | ■ | | |
| 7. Gwella'r arwyddbyst o amgylch y castell i'r maes parcio. Ffordd gul gyda pharcio ar ochr y ffordd i ganiatáu i'r lle gwyrdd ehangu a chreu tirwedd llai llym o flaen yr hen dŵr (St Hilary's Terrace). | | ■ | ■ | ■ | | |
| 8. Archwilio gwell defnydd o'r ardal werdd o amgylch Castell Dinbych i ddefnyddio'r gofod hwn yn well gan gynnwys darparu gofod gwyrdd hyblyg sy'n cynnwys lle ar gyfer digwyddiadau, seddi cymdeithasol a darpariaeth chwarae plant. | ■ | | | ■ | ■ | |
| 9. Archwilio ailddatblygu hen safle Sinema Scala (Sinema Wedgewood) yn ganolfan breswyl neu amlbwrpas ar gyfer y gymuned, busnes a lles, fyddai'n gallu bod yn gartref i ddefnyddiau megis hwb busnes ac ystafelloedd amlbwrpas. | ■ | | | | ■ | ■ |
| 10. Archwilio cyfle i gyfuno'r orsaf dân gyda gwasanaethau brys eraill gan ddarparu mwy o le i'r Hwb ehangu. | ■ | | | | ■ | |






Enghraifft o fwrdd gwybodaeth ddigidol


Enghraifft o amgylchedd croesawgar i gerddwyr sy'n caniatáu i fusnesau feddiannu a gweithredu'r tir cyhoeddus


Enghraifft o ardal chwarae defnydd cymysg awyr agored


Enghraifft o faes chwaraeon a thrac rhedeg awyr agored

# 04. Porth y Dwyrain a Stryd y Dyffryn

| CYFLEOEDD | UCHELGEISIAU WEDI'U MARCIO YN ERBYN SIART CREU LLEOEDD CYMRU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYMYSGEDD O DDEFNYDDIAU | SYMUD | LLEOLIAD | TIR CYHOEDDUS | POBL A'R GYMUNED | HUNANIAETH |
| 1. Archwilio lleihau seilwaith cerbydau yng nghyffordd Rhuthun a Rhyl Road i greu amgylchedd mwy diogel a deniadol i gerddwyr a gwella mynedfa'r dref. | | ● | | ● | | |
| 2. Gwella Stryd y Dyffryn gyda dodrefn stryd newydd fel meinciau cymdeithasol i wneud y stryd yn fwy deniadol i gerddwyr. Yn ogystal, gwneud newidiadau sylweddol ar gyffyrdd allweddol i hwyluso symudiadau croesi cerddwyr a thawelu traffig yn naturiol. | | ● | | ● | | |
| 3. Ystyried gweithredu gwyrddu stryd gyda phlanwyr, gerddi glaw a choed i wella'r amgylchedd a chefnogi busnesau lleol. Cydweithio gyda grwpiau lleol sy'n angerddol am gynnal a chyflwyno gwyrddni yn y dref. | ● | | | ● | ● | |
| 4. Mynegi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn celf gyhoeddus ac arwyddbyst ar hyd Stryd y Dyffryn drwy arwyddion dwyieithog, themâu diwylliannol mewn celf gyhoeddus a defnydd o farddoniaeth a llenyddiaeth. | | | ● | ● | | ● |
| 5. Buddsoddi yn Middle Parc i gyflwyno mwy o gyfleusterau ac amwynderau, gan gynnwys offer ymarfer corff awyr agored, llwybr ffitrwydd, ac ardaloedd eistedd cymdeithasol gyda darpariaeth gysgodol. | ● | | | ● | ● | |
| 6. Gwella teithio llesol yng nghanol y dref a'r cyffiniau gyda chysylltiadau gwell o'r dwyrain i'r gorllewin a darparu seilwaith beicio newydd a storio diogel. Creu cyffyrdd blaenoriaeth i gerddwyr ar gyffyrdd eilaidd, gan flaenoriaethu symudiad cerddwyr ar hyd Stryd y Dyffryn. | | ● | ● | | | |
| 7. Archwilio sut y gall seilwaith digidol newydd ar hyd Stryd y Dyffryn wella profiad ymwelwyr yn Ninbych a dod â mwy o bobl i ganol y dref a'r atyniadau treftadaeth. Gallai hyn gynnwys gweithredu Wi-Fi cyhoeddus dibynadwy a hysbysfwrdd digidol ar gyfer gwybodaeth leol a chynigion arbennig. | | | | ● | ● | |
| 8. Archwilio gweithredu cynllun ysgogi unedau gwag i helpu i adfywio unedau gwag Stryd y Dyffryn mewn lleoliadau amlwg, gan wella'r cynnig ac ansawdd canfyddedig y dref. | ● | | | | | ● |





Enghraifft o SuDS a gwyrddio strydoedd



Enghraifft o seddi cymdeithasol ar hyd stryd fawr






Enghreifftiau o furluniau a chelf gyhoeddus Gymreig


the urbanists
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Llywodraeth Cymru Welsh Government